Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

19 Chwefror 2018

Mr Darren Mepham
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Annwyl Mr Mepham

**Y strwythur uwch-reoli arfaethedig**

Cytunais â Kelly Watson y byddwn yn cadarnhau fy sylwadau ar eich cynigion, y bûm yn eu trafod gyda hi dros y ffôn ddydd Mercher 14 Chwefror.

Mae eich cynllun ailstrwythuro arfaethedig wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor, a'r cam nesaf yw cael cymeradwyaeth i ymgynghori a chynnal ymarferiad gwerthuso swyddi. Mater i'r Cyngor yn unig yw hwn ac nid yw o fewn cylch gwaith y Panel fel y'i pennwyd gan y ddeddfwriaeth ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, yn dilyn y gwerthusiad swyddi, y bwriad yw "ffitio" aelodau o'r staff i swyddi yn y strwythur newydd. Os bydd hyn yn arwain at newidiadau cyflog (cynnydd neu ostyngiad) i unrhyw un, byddai hyn yn fater i ni ei ystyried. Gofynnais i Kelly Watson beth oedd y bwriad yn achos swydd y Dirprwy Brif Weithredwr, a chefais wybod y byddai'r rôl hon yn cael ei hychwanegu at gyfrifoldebau un o'r cyfarwyddwyr corfforaethol. Rwy'n ystyried y byddai hynny yn fater i'r Panel.

Rwy'n gobeithio bod yr esboniad hwn yn ddefnyddiol.

Yn gywir

John Bader

John Bader
Cadeirydd